ADFYWIO

Adfywio Iaith a Thrawsnewid Cymdeithasol

# Adroddiad Gweithdy 2

# Thema'r gweithdy: Adfywio iaith a thrawsnewidiad bywyd teuluol

**Paratowyd gan Dr Huw Lewis, Dr Elin Royles a'r Athro Wilson McLeod**

**Hydref 2017**

Prifysgol Aberystwyth University · The University of Edinburgh · Arts & Humanities Research Council

Gwefan: revitalise.aber.ac.uk Ebost: revitalise@aber.ac.uk Twitter: @_revitalise

# Crynodeb Gweithredol

- Mae'r papur hwn yn adrodd ar y trafodaethau a gafwyd fel rhan o ail weithdy y prosiect **Adfywio** a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Caeredin rhwng 8 a 9 Medi 2017. Teitl y gweithdy oedd **'Adfywio iaith a thrawsnewidiad bywyd teuluol'**, a'i nod oedd rhoi'r cyfle i feddwl yn feirniadol am newidiadau diweddar i'r modd mae teuluoedd yn trefnu eu bywydau dydd i ddydd a'u goblygiadau i'n dealltwriaeth o sut i adfywio ieithoedd lleiafrifol. Mae'r prif gasgliadau a ddeilliodd o'r gweithdy wedi'u rhestru isod.

- **Y syniad o blant fel actorion cymdeithasol cyflawn.** Mae ymchwil diweddar ym maes astudiaethau plentyndod wedi pwysleisio'r angen i drin plant fel actorion cymdeithasol yn eu hawl eu hunain. Mae hyn yn galw am gydnabod bod plant yn meddu ar y gallu i fynegi dymuniadau a safbwyntiau ar faterion pwysig, a hefyd yn meddu ar y gallu i ddylanwadu ar sefyllfaoedd. Golyga hefyd gydnabod bod plant yn meddu ar y gallu i ddal ac arddel hawliau. Mae angen i ymchwilwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio ym maes adfywio iaith roi ystyriaeth gofalus i syniadau o'r fath: beth fyddai oblygiadau mabwysiadu persbectif ar adfywio iaith sy'n rhoi pwyslais ar hawliau plant?

- **Polisi iaith y teulu a chyfyngiadau ymchwil cyfoes.** Tra bo'r degawdau diwethaf wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ymchwil sy'n canolbwyntio ar bolisi iaith y teulu, mae'r gwaith a gyhoeddwyd hyd yn hyn yn meddu ar amryw o gyfyngiadau. Er enghraifft, mae'r llenyddiaeth wedi tueddu i ganolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar arferion iaith of fewn teuluoedd dau riant, heterorywiol sy'n byw mewn gwledydd Gorllewinol. Nid yw'r ymchwil wedi ymateb i'r amrywiaeth o ffurfiau teuluol sydd bellach yn fwyfwy cyffredin, er enghraifft trwy roi sylw hefyd i sefyllfa teuluoedd â un rhiant neu deuluoedd â rhieni hoyw.

- **Ystyriaethau pwysig wrth gysyniadoli trosglwyddiad iaith rhyng-genedlaethol.** Mae'r llenyddiaeth polisi ac ymchwil sy'n trafod adfywio iaith wedi pwysleisio'n gyson bod trosglwyddiad iaith rhyng-genedlaethol yn faes cwbl allweddol. Fodd bynnag, mae ymdrechion i gloriannu gwir arwyddocâd trosglwyddiad iaith rhyng-genedlaethol wedi'u tanseilio gan y ffaith na chafodd y broses ei chysyniadoli mewn modd boddhaol. Mae galw am roi mwy o ystyriaeth i'r cydbwysedd rhwng dylanwad ffactorau o fewn y cartref a dylanwad ffactorau cymdeithasol allanol, a hefyd ystyriaeth fwy manwl i gyfraniad gweithredol plant wrth sefydlu arferion iaith y cartref.

- **Sefydliadoli, proffesiynoli a rheoleiddio ym maes gofal plant.** Wrth bod teuluoedd yn gwneud defnydd helaethech o ystod o ddarparwyr gofal ar gyfer plant (meithrinfeydd dydd, gofalwyr plant cofrestredig, grwpiau chwarae, clybiau ar ôl ysgol ayb), cyflwynwyd fframweithiau statudol gwahanol er mwyn rheoleiddio'r maes a rhoddwyd pwyslais cynyddol ar yr angen i staff feddu ar gymwysterau perthnasol. Mae datblygiadau o'r fath wedi golygu bod cyrff neu fentrau sy'n ymdrechu i hybu'r broses o gaffael iaith leiafrifol ymhlith plant ifanc bellach angen ymgodymu ag ystod o gyrff rheoleiddio gwahanol a bodloni amrywiaeth eang o safonau sydd ddim yn ymwneud yn uniongyrchol â iaith.

- **Galluoedd ac agweddau ieithyddol rhieni.** Mae angen i ymyrraethau sy'n ymdrechu i hybu'r broses o gaffael iaith leiafrifol ymhlith plant ifanc gydnabod y galluoedd a'r agweddau iaith amrywiol a geir ymhlith rhieni. Bydd rhai rheini sydd am drosglwyddo'r

iaith i'w plant yn siaradwyr rhugl, hyderus, tra bydd rhuglder a hyder rheini eraill yn dipyn mwy cyfyngedig. Yn ogystal, ni fydd pob rhiant sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysgu trwy gyfrwng iaith leiafrifol yn seilio eu penderfyniad ar ymrwymiad cryf i adfywiad yr iaith honno. Er enghraifft, mewn rhai achosion mae'n bosib y bydd cred yn y manteision gwybyddol tybiedig sy'n gysylltiedig a dwy neu amlieithrwydd yn gymhelliad pwysicach.

- **Dylanwad technoleg ar batrymau ymwneud o fewn y cartref.** Mae technoleg digidol yn trawsnewid sut mae aelodau o'r teulu yn ymwneud â'i gilydd, ac yn benodol, sut mae plant ifanc yn chwarae a dysgu. O ystyried hyn, mae angen i'r sawl sy'n gweithio ym maes adfywio iaith fagu dealltwriaeth o sut gellir harneisio 'arferion chwarae digidol' cyfoes er mwyn hybu a chefnogi ymdrechion i gaffael a defnyddio ieithoedd lleiafrifol yn y cartref.